# Y Pwyllgor Cyllid

# Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

**01.** Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a diben

**02.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer amryw o faterion mewn cysylltiad â gweinyddu'r trethi datganoledig.

**03.** Mae rheoliad 3 yn rhagnodi Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel person y gall Awdurdod Cyllid Cymru ddirprwyo iddo unrhyw un o'i swyddogaethau mewn cysylltiad â threth gwarediadau tirlenwi.

**04.** Mae Rheoliad 4 yn pennu mai cyfnod cynllunio cyntaf Awdurdod Cyllid Cymru fydd 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 (at ddibenion ei gynllun corfforaethol).

**05.** Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau.

**06.** Mae Rhan 4 yn darparu gweithdrefnau i ddyfarnu ynghylch anghydfodau o ran a yw gwybodaeth neu ddogfen y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gofyn amdani yn cael ei diogelu gan fraint broffesiynol gyfreithiol.

## Y weithdrefn

**07.** Negyddol

## Craffu ar y rhinweddau

**08.** Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar bolisi

**Datganiad ar y bwriad polisi**

09. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

*Rheoliad 3*

10. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â pholisi cysylltiedig yn y datganiad.

11. Mae'r datganiad yn nodi y bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ddirprwyo swyddogaethau casglu a rheoli trethi o adeg ei sefydlu.

12. Mewn datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn dirprwyo swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gorff Cyfoeth Naturiol Cymru.

*Rheoliad 4*

13. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â pholisi cysylltiedig yn y datganiad.

14. Mae'r datganiad yn nodi y bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu cyfnod cynllunio cyntaf sydd i'w arfer yn barod ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r rheoliad yn nodi'r cyfnod cynllunio hwn.

**Rhan 3**

*Rheoliadau 5-7*

15. Mae pob un o'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â pholisi cysylltiedig yn y datganiad.

16. Mae'r datganiad yn cynnwys rheoliadau i osod y cyfraddau llog ar gyfer taliadau hwyr ac ad-daliadau. Ni fyddai pwerau o'r fath ond yn cael eu defnyddio i wneud addasiadau i symiau'r llog (e.e. i sicrhau eu bod yn cymharu â gweddill y DU).

17. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn pennu sut y mae'r cyfraddau llog i gael eu cyfrifo a pha gyfradd gan Fanc Lloegr sydd i gael ei defnyddio i gyfrifo llog.

**Rhan 4**

*Rheoliad 8*

18. Mae hwn yn darparu ar gyfer cymhwyso Rhan 4 yn ymwneud â phenderfynu a yw gwybodaeth y gofynnir amdani yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol.

*Rheoliadau 9-14*

19. Mae pob un o'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â pholisi cysylltiedig yn y datganiad.

20. Mae'r datganiad yn nodi bod angen rheoliadau i wneud darpariaethau i'r Tribiwnlys ddatrys unrhyw anghydfod o ran a yw unrhyw wybodaeth neu ddogfen yn destun braint gyfreithiol. Mae darpariaethau o'r fath wedi'u hymgorffori yn y rheoliadau hyn.

**Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid**

21. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ar gyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau, nac ar y gweithdrefnau datrys anghydfodau ar gyfer gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

*Ymgynghoriad y Cynulliad*

22. O ran rheoliadau 9-14, nododd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yn ei thystiolaeth:

> Legal professional privilege is a fundamental human right and it is imperative that any regulations **should be the subject to consultation** before being laid before the Welsh Assembly. We note that these regulations as with the majority of regulations to give effect to the Bill are to be passed by the negative procedure. This will inevitably mean that they will be passed with minimal scrutiny by legislators if any. We consider that these important regulations to ensure the protection of taxpayers' rights **should be passed** by way of affirmative resolution.

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

23. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn yr ymgynghoriad ynghylch cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau, nac ynghylch gweithdrefnau datrys anghydfodau ar gyfer gwybodaeth â braint gyfreithiol.

**Rheoliadau'r DU**

*Rheoliad 3*

24. Mae'r rheoliad sy'n ymwneud â dirprwyo swyddogaethau yn debyg i reoliadau Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.

*Rheoliad 4*

25. Mae'r rheoliad sy'n ymwneud â'r cyfnod cynllunio cyntaf yn debyg i reoliadau'r Alban.

*Rheoliadau 5-7*

26. Mae cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau yr un fath â'r rhai a ddefnyddir yn rheoliadau'r Alban. Mae Llywodraeth y DU yn gosod yr un gyfradd llog ar gyfer taliadau hwyr ond dim ond 0.5% ar gyfer ad-daliadau yn hytrach na 0.5% neu gyfradd Banc Lloegr, pa un bynnag yw'r uchaf.

*Rheoliadau 8-14*

27. Nid oes unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag anghydfodau ynghylch a yw dogfen yn destun braint broffesiynol gyfreithiol.

## Ymateb y Llywodraeth

28. Rydym yn nodi sylwebaeth y Pwyllgor ar y rheoliadau hyn. O ran y sylwebaeth ar Ran 4, nid oes gwahaniaethau nodedig rhwng y weithdrefn a grëir yn y rheoliadau hyn a’r gweithdrefnau presennol sy’n gweithredu o dan systemau trethi y DU a’r Alban. Dyna pam y cafwyd ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliad allweddol cyn i’r rheoliadau gael eu gwneud.

29. Mewn perthynas â’r weithdrefn briodol, mae adran 189(3) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu y bydd y Rheoliadau yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

30. Yn olaf, mewn ymateb i'r sylwebaeth yn yr adroddiad ar reoliad 7, efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi nad yw'r gyfradd llog ad-daliadau a gymhwysir gan CThEM[1] yn gyfradd sefydlog o 0.5%, ond yn hytrach ei bod yn cael ei phennu drwy fformiwla sy'n galluogi i'r gyfradd llog ad-daliadau ddilyn cyfradd Banc Lloegr. Mae'r fformiwla hon yn darparu mai'r gyfradd llog ad-daliadau yw pa un bynnag o'r canlynol sydd uchaf:

– (i) 0.5% y flwyddyn, a

– (ii) y ganran a geir drwy dynnu 1 o gyfradd Banc Lloegr.

31. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r un fformiwla â'r un a ddefnyddir yn rheoliadau yr Alban, gan yr ystyrir bod hyn yn rhoi canlyniad tecach i drethdalwyr.

## Safbwynt y Pwyllgor

32. Nododd y Pwyllgor y rheoliadau.

---

[1] Gweler rheoliad 3AB o Reoliadau Trethi (Cyfradd Llog) 1989 (mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp) a rheoliad 5 o Reoliadau Toll Teithwyr Awyr a Threthi Anuniongyrchol Eraill (Cyfradd Llog) 1998 (mewn perthynas â'r dreth dirlenwi).